Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

Judith Greenhalgh
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
judith.greenhalgh@denbighshire.gov.uk

17 Mehefin 2019

Annwyl Ms Greenhalgh

**Adolygiad o'r Strwythur ar gyfer Uwch Arweinwyr – Cyngor Sir Ddinbych**

Cafodd eich cais ynghylch newidiadau i gyflogau'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cyfathrebu a Thai ei ystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin. Roedd pob aelod o'r Panel yn bresennol ac felly roedd cworwm ar gyfer y cyfarfod.

O ran swyddogaeth y Panel sy'n ymwneud â chyflogau prif swyddogion, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

a) Cymeradwyo'r cynnig
b) Mynegi pryderon ynghylch y cynnig
c) Argymell amrywiad i'r cynnig

Ar ôl rhoi ystyriaeth fanwl i gais eich awdurdod, penderfynodd y Panel gymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd, ar gyfer strwythur cyflog a gradd y ddwy swydd Prif Swyddog fel y'i cynigiwyd.

Yn gywir

John Bader

Cadeirydd